COFNODION O GYFARFOD PWYLLGOR AMCANION CYFFREDINOL A CHYNLLUNIO CYNGOR TREF BAE COLWYN A GYNHALIWYD AR LEIN (TRWY ZOOM), NOS FAWRTH, 24AIN TACHWEDD 2020 AM 6.30 P.M.

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd C. Brockley (Cadeirydd)
Cynghorwyr Mrs Glenys Baker, N. Bastow (Maer), G. Campbell, Mrs M. Jones (Dirprwy Faer), J. Pearson, M. Tasker, M. Worth.

SWYDDOGION: Mrs Tina Earley, Clerc y Dref
Mrs Roz Dudley, Clerc Cynorthwyol.

155/20 Croeso ag Ymddiheuriadau am Absenoldeb:

Croesawyd yr Aelodau i'r cyfarfod gan y Cadeirydd. Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd. C. Matthews. Cafwyd ennyd o dawelwch er cof am y Cynghorydd Bob Barton a fu farw'n ddiweddar.

156/20 Datgan Cysylltiadau:

Atgoffwyd yr aelodau o'r angen iddynt ddatgan unrhyw gysylltiadau personol a / neu rai all ragfarnu, a natur y fath gysylltiadau. Ni ddatganwyd dim.

157/20 Cofnodion:

Penderfynwyd cymeradwyo a llofnodi bod cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 27ain Hydref 2020 yn adroddiad cywir.

158/20 Materion yn Codi o'r Cofnodion:

a) Cofnod 119/20(ii): Ciosg BT, Ffordd Abergele:
Cyflwynodd y Clerc e-bost oddi wrth y Cynghorydd Matthews ynglŷn â chyflwr gwael y ciosg ar Ffordd Abergele a gofynnodd i'r Aelodau ystyried tynnu'n ôl y cais i fabwysiadu'r ciosg. Dywedodd y Clerc wrth yr Aelodau iddi gael gair byr gyda'r Cynghorydd Barton ar ôl derbyn yr e-bost gan y Cynghorydd Matthews, ac fe gytunodd nad oedd y ciosg yn y safle iawn oherwydd y cyflwr gwael ac roedd yn fodlon i'r cais i'w fabwysiadu cael ei dynnu'n ôl.

Penderfynwyd ysgrifennu at BT i dynnu'n ôl y bwriad i fabwysiadu'r ciosg ar Ffordd Abergele.

b) Cofnod 121/20: Hysbysfyrddau:
Gofynnodd y Clerc i'r Aelodau am unrhyw adroddiadau archwiliad chwarterol. Cyflwynwyd e-bost gan y Cynghorydd Matthews am ordyfiant eiddew ar yr hysbysfwrdd ar Ffordd Groes. Cyfeiriodd y Cynghorydd Worth at yr angen am gefndir newydd lamineiddio ar hysbysfwrdd Rhodfa Victoria a dywedodd y Cynghorydd Baker bod angen mân atgyweiriadau i hysbysfwrdd Rhodfa Colwyn a bod angen newid yr arwyddion ar Neuadd y Dref.

Penderfynwyd bod y Clerc i ofyn i'r aelodau archwilio pob hysbysfwrdd arall yn eu wardiau ac i adael i'r staff wybod pan gwblhawyd hyn.

c) Cofnod 124/20: Trafnidiaeth Cymru:

Cyflwynodd y Clerc e-bost yn gofyn am awgrymiadau am welliannau i Orsaf y Rheilffordd. Dywedodd y Cynghorydd Worth bod aelodau Pwyllgor Colwyn yn ei Blodau wedi cynnal archwiliad o'r safle yn dilyn trafodaeth yn y cyfarfod yr wythnos diwethaf. Mae'r gwaith o adnewyddu a thrwsio a wnaed, yn dda iawn. Awgrymodd bod angen trefn well o lanhau neu fwy o wifrau i ddatrys problem y colomennod. Cafodd yr hen ddrysau a ffenestri ar Blatfform 2 eu paentio'n wyrdd ond mae'r paent wedi cracio ac yn casglu llwch. Mae angen eu gorchuddio ac fe awgrymwyd defnyddio posteri hen ffasiwn, Rheilffyrdd Prydeinig. Mae'r lluniau o ysgolion yn hen ac wedi pylu ac mae angen cael lluniau o ysgolion lleol i gymryd eu lle. Mae bricsen ar goll o'r wal oddi allan ac mae'n edrych yn od. Rhaid gosod un newydd i gymryd ei le. Mae yna le gwag oddi allan nad yw'n cael ei ddefnyddio. Byddai'r safle hon yn addas ar gyfer stondin coffi am nad oes cyfleusterau i gael lluniaeth yn yr orsaf

Penderfynwyd anfon sylwadau'r Pwyllgor at Drafnidiaeth Cymru.

150/20 <u>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC):</u>

a) Rheoliad Traffig Dros Dro (RhTDD):
Cyflwynodd y Clerc, er gwybodaeth:
RhTDD i wahardd parcio ar Ffordd y Tywysog ar 24/11 (Gwaith BT)

b) Diweddariad am Feysydd Chwarae:

Cyflwynodd y Clerc diweddariad oddi wrth Archwilydd Meysydd Chwarae CBS Conwy.

Penderfynwyd gofyn am adroddiadau diweddaru rhestredig gan GBS Conwy unwaith i'r gwaith cael ei gwblhau.

c) Menter Mannau Natur Leol ar gyfer Plannu Coed:

Cyflwynodd y Clerc e-bost oddi wrth ERF yn gofyn am syniadau ar gyfer mannau i blannu coed. Nid oedd yn amlwg o'r e-bost am ba ardal y gofynnir am awgrymiadau (o fewn neu'r tu allan i ardal cynllun buddsoddi canol y dref). Awgrymwyd gan Bwyllgor Colwyn yn ei Blodau byddai Maes Parcio Ivy Street yn le addas. Roedd y Warden Coed wedi cyfarfod Swyddog Coed CBS Conwy ac wedi cael awgrymiadau am leoliadau yn Llandrillo yn Rhos. Fe anfonir y rhain at y Clerc Cynorthwyol.

Penderfynwyd gofyn i ERF egluro pa ardal sydd ei angen ac yna anfon e-bost at bob Cynghorydd i ofyn am syniadau.

160/20 <u>Gweithlu Chwarae Cyfeillgar tros Gymru:</u>

Cyflwynodd y Clerc llythyr a chynllun datblygu ac fe nodwyd hyn gan yr Aelodau.

161/20 <u>Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru (CCLlGChC): Ymgynghoriad ar sefydlu (Rheoliadau) (Cynllun Datblygu Strategol) (Cymru) (2021) Cynllunio Gwlad a Thref:</u>

a) Cyflwynodd y Clerc e-bost parthed yr ymgynghoriad a nodwyd gan yr Aelodau

b) Cyflwynodd y Clerc y Ddogfen Ymgynghori ac fe nodwyd hyn gan yr Aelodau.

c) Cyflwynodd y Clerc ymateb drafft CCLlGChC ac fe nodwyd hyn gan yr Aelodau

162/20 <u>Cynllunio</u>:

a) Cyflwynodd y Clerc y ceisiadau cynllunio a dderbyniwyd oddi wrth GBS Conwy i gael eu hystyried.

Penderfynwyd anfon sylwadau ar y ceisiadau hyn yn unol â'r hyn a welir yn Atodlen 'A' sydd gyda hwn.

b) ***Penderfynwyd derbyn copi o'r Penderfyniadau Cynllunio a wnaed gan GBS Conwy yn y cyfnod 19/10/2020 hyd at 15/11/2020.***

c) Cymorth Cynllunio Cymru:

(i) Rhoddodd y Cynghorydd Baker adroddiad byr am y cwrs hyfforddi a fynychwyd ganddi ar 9/11 yn ymwneud a 'Cyflwyniad i Orfodaeth Cynllunio'. Gofynnodd i'r Clerc Cynorthwyol anfon sleidiau'r cyflwyniad i bob aelod trwy e-bost.

(**ii**) Cyflwynodd y Clerc gwybodaeth am gwrs hyfforddi ar 'Ymateb i Ymgynghoriadau Cynllunio' sydd i'w gynnal ar 9fed Rhagfyr.

ch) Cais Cynllunio O/47703:

Cyflwynodd y Clerc ateb a gafwyd ynglŷn â'r defnydd arfaethedig o'r ganolfan a'r ystyriaeth a wnaed o safleoedd eraill. O ganlyniad i'r wybodaeth ychwanegol hwn, gofynnwyd i'r Aelodau nodi mai 'Dim Gwrthwynebiad' a gyflwynwyd ar ran y Cyngor Tref.

d) Newid Defnydd:

Nodwyd gan yr Aelodau bod y gwahaniaeth yn y rheoliadau presennol am newid defnydd ar Ffordd Penrhyn a Ffordd yr Orsaf i gael ei ystyried gan Grŵp Tasg a Gorffen y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl).

dd) Cyflwynodd y Clerc penderfyniad Apêl parthed Fferm Nant Uchaf, ac fe nodwyd hyn gan yr Aelodau.

e) Cyflwynodd y Clerc hysbysiad o dynnu cais cynllunio O/47667 yn ol, ac fe nodwyd hyn gan yr Aelodau.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.35 pm …… Cadeirydd

MINUTES OF A MEETING OF THE GENERAL PURPOSE AND PLANNING COMMITTEE OF THE BAY OF COLWYN TOWN COUNCIL, HELD ONLINE (VIA ZOOM) AT 6:30PM ON TUESDAY 24TH NOVEMBER 2020

PRESENT: Cllr C Brockley (Chair)
Cllrs: G Baker; N Bastow (Mayor); G Campbell; Mrs M Jones (Deputy Mayor); J Pearson; M Tasker and M Worth.

OFFICERS: Mrs T Earley, Clerk
Mrs R Dudley, Assistant Clerk

93/20 Welcome and Apologies for Absence:

The Chair welcomed members to the meeting. Apologies for absence were received from Cllr C Matthews. A minute's silence was held as a mark of respect and in memory of Cllr Bob Barton, who had sadly passed away recently.

94/20 Declarations of Interest:

Members were reminded that they must declare the existence and nature of any personal and/or prejudicial interests. None were declared.

95/20 Minutes:

Resolved to approve and sign, as a correct record, the minutes of the last meeting, held on 27th October 2020.

96/20 Matters arising from the Minutes:

a) Min 119/20(ii): BT Phone Kiosk:
The Clerk submitted an email from Cllr Matthews regarding the poor condition of the kiosk on Abergele Road and asked members to consider withdrawing the application to adopt the kiosk. The Clerk informed the members that she had had a brief conversation with Cllr Barton after receipt of the e-mail from Cllr Matthews and he had agreed that the kiosk wasn't the right location, due to its poor condition, and was happy to withdraw the intention to adopt it.

Resolved to write to BT to withdraw the intention to adopt the kiosk on Abergele Road.

b) Min 121/20: Noticeboards:
The Clerk asked for any quarterly inspection reports from members: Cllr Matthews had submitted an email regarding overgrowing ivy on the noticeboard on Groes Road; Cllr Worth reported that the noticeboard on Victoria Avenue needs new laminate backing and Cllr Baker reported that the noticeboard on Colwyn Avenue needs minor repairs and the Town Hall signs need replacing.

Resolved that the Clerk requests that members check all other noticeboards

in their wards and to notify the staff, when this has been completed.

c) Min 124/20: Transport for Wales:
The Clerk submitted an email asking for suggestions for Station improvements. Cllr Worth reported that a site visit had been undertaken by members of the Colwyn in Bloom Committee, following a discussion at the meeting last week. The renovations and repairs that have been done are very good. He suggested a better cleaning regime or more netting was needed to solve the pigeon problem. The old doors and windows on Platform 2 had been painted green, the paint was cracked and gathered dust. They need covering up and suggested old fashioned British Rail posters. The school paintings displayed are old and faded and need renewing by local schools. There is a brick missing from the wall outside which looks odd and needs replacing. There is also an unused outside space which could be a good area for a takeaway coffee stall, as the station has no refreshment facilities.

Resolved to write to Transport Wales with the Committee's observations.

97/20 <u>Conwy CBC</u>:

a) Temporary Traffic Regulation:
The Clerk submitted, for information:
TTR for prohibition of parking for Prince's Drive on 24/11 (BT Work).

b) Playground Update:
The Clerk submitted an update from the Conwy CBC Playground Inspector.

Resolved to request up-to-date itemised reports from Conwy CBC once the works have been completed.

c) Local Places for Nature Tree Planting Initiative:
The Clerk submitted an email from ERF requesting ideas for possible tree planting. It was not clear from the email which area suggestions were being asked for (within or outside of the town centre investment plan area). The Colwyn in Bloom Committee had submitted Ivy Street Car Park as a possible suitable location. The Tree Warden had met with the Tree Officer, Conwy CBC and had suggestions for locations in Rhos on Sea which he would email to the Assistant Clerk.

Resolved to write to ERF to clarify the area required and to then send the email to all Councillors to invite their suggestions.

98/20 <u>Play Friendly Workforce for Wales</u>:

The Clerk submitted a letter and development plan, which were noted by members.

99/20 <u>NMWALC Re</u>: <u>Consultation on establishing the Town and Country Planning (Strategic Development Plan) (Wales) (Regulations) (2021)</u>:

a) The Clerk submitted an email regarding the consultation which was noted by members.

b) The Clerk submitted the Consultation Document, which was noted by members.

c) The Clerk submitted the draft response from NMWALC, which was noted by members.

100/20 <u>Planning:</u>

a) The Clerk submitted, for consideration, the planning applications received from CCBC.

Resolved to submit observations on these applications, as detailed in Schedule 'A' attached.

b) ***Resolved to receive a copy of the Planning Decisions issued by CCBC for the period 19/10/2020 – 15/11/2020.***

c) Planning Aid Wales:

(i) Cllr Baker gave a brief report on the training course she had attended on 9/11 regarding Introduction to Planning Enforcement. She requested that the Assistant Clerk email the presentation slides to all members.

(ii) The Clerk submitted information regarding a training course on Responding to Planning Consultations to be held on 9th December.

d) Planning Application 0/47703:

The Clerk submitted an reply regarding the proposed use of the centre and consideration of other sites and asked members to note that, as a result of this further information, 'No Objections' has now been submitted by the Town Council.

e) Change of Use:

Members noted that the difference in the existing change of use regulations on Penrhyn Road and Station Road is to be considered by the LDP Task & Finish Group.

f) The Clerk submitted the Appeal Decision for Nant Uchaf Farm which was noted by members.

g) The Clerk submitted the withdrawal notice for planning application 0/47667 which was noted by members.

The meeting closed at 7.35pm.

……. Chairman